**Ffilm Cymru Wales**
**Swydd-ddisgrifiad: Rheolwr Ariannol**

Dyma'r pecyn gwybodaeth ar gyfer swydd:
**Rheolwr Ariannol**

Caiff y wybodaeth ganlynol ei darparu i'ch cynorthwyo â'ch cais. Mae rhagor o wybodaeth am Ffilm Cymru Wales ar gael fan yma: [www.ffilmcymruwales.com](http://www.ffilmcymruwales.com)

## Cynnwys


Croeso ........ 2
Sut i Wneud Cais ........ 3
  Cymorth Mynediad ........ 4
  Ar ôl i Chi Wneud Cais ........ 5
Hysbyseb Swydd ........ 6
Swydd-ddisgrifiad Llawn ........ 7
  Nodau'r Swydd ........ 8
  Swydd-ddisgrifiad ........ 9

**Ffilm Cymru Wales**
**Swydd-ddisgrifiad: Rheolwr Ariannol**

# Croeso

Diolch i chi am eich diddordeb yn y swydd reoli uwch gyffrous hon. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno â Ffilm Cymru Wales ar adeg o dwf yn y cwmni ac adeg o gyfleoedd newydd i gefnogi'r byd ffilm yng Nghymru ac ar ran Cymru.

Rydym yn chwilio am rywun sydd â chymwysterau rheoli ariannol cryf, a all hefyd weithio ar draws y cwmni i gefnogi rheolwyr arbenigol yn ein hymgyrch i gynorthwyo'r sector ffilm.

Wedi'i sefydlu yn 2006, Ffilm Cymru Wales yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilmiau yng Nghymru ac mae'n Gwmni Buddiannau Cymunedol. Ers 2006, mae'r sector cynhyrchu ffilmiau yng Nghymru wedi tyfu'n sylweddol ac mae'r heriau sy'n wynebu meysydd arddangos, datblygu, cynhyrchu, sgiliau a hyfforddiant, ac arferion gwaith wedi newid yn sylweddol.

Mae ein Cynllun Strategol 2018-2024 i'w weld fan yma. Mae cynllun strategol drafft ar gyfer 2024-2030 yn nwylo Cyngor Celfyddydau Cymru ar hyn o bryd fel rhan o'u Hadolygiad Buddsoddi. Bydd ein Rheolwr Ariannol newydd yn helpu i gyflawni a rheoli'r cynlluniau uchelgeisiol hyn, gan gynnwys adolygu ac ystyried senarios gwahanol, lle bo angen.

Mae ein gwaith yn mapio'n agos i Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, oherwydd cymysgedd creadigol, economaidd a diwylliannol ein sector, ac rydym wedi ymrwymo i werthoedd gwaith teg.

Rydym wedi bod yn dirprwyo ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru a'r BFI ers amser hir, gan dderbyn arian y Loteri Genedlaethol, a'i ddyfarnu (fel arian grant ac ecwiti) i arddangoswyr a gwneuthurwyr

ffilmiau. Yn ogystal â hyn, rydym yn rheoli cyllid Cymru Greadigol ar ran Llywodraeth Cymru ar gyfer ffilmiau nodwedd annibynnol. Ac rydym yn rhagweld ysgogi cyllid pellach – drwy awdurdodau lleol, Llywodraeth y DU a chyllidwyr presennol – i gefnogi sgiliau a hyfforddiant, a mesurau amgylcheddol, gan gynyddu ein trosiant i tua £5miliwn y flwyddyn.

Mae Ffilm Cymru Wales yn arloesol yn ein modelau ariannu a sut rydym yn cydweithredu. Er enghraifft, yn ddiweddar fe wnaethom godi arian drwy Media Cymru (Strength in Places UKRI) i gefnogi diwydiant sgrin gwyrddach ac adeiladu ar raglen waith Troed yn y Drws, gan chwalu rhwystrau economaidd-gymdeithasol i yrfa ym myd y sgrin. Mae ein gwerthoedd yn golygu ein bod yn edrych am effaith hirdymor ac yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i weithio gyda phartneriaid o bob rhan o'r gymdeithas yng Nghymru sy'n rhannu ein hymrwymiad i sector ffilm cynhwysol a chynaliadwy i bawb.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais, ac mae croeso i chi ei gyflwyno yn Gymraeg neu Saesneg.

**Matthew Daniel, Prif Swyddog Gweithredu.**

## Sut i Wneud Cais

Oni bai ein bod wedi cytuno i chi ddefnyddio fformat gwahanol i gyflwyno cais, dylech anfon CV a llythyr eglurhaol i Hayley Lau - Hayley@ffilmcymruwales.com - yn nodi pryd rydych ar gael a'ch profiad a'ch sgiliau yn erbyn yr hyn sydd wedi'i amlinellu yn y fanyleb isod.

**Gofynnwn i chi gyflwyno eich cais erbyn 16:00 ar 29 Awst 2023.**

**Ffilm Cymru Wales**
**Swydd-ddisgrifiad: Rheolwr Ariannol**

Fel rhan o'ch cais, nodwch unrhyw ddyddiadau pan na fyddwch ar gael i gael eich cyfweld.

Nid yw Ffilm Cymru Wales yn noddwr trwyddedig ar gyfer VISAs ac felly mae'n rhaid bod eisoes gennych Hawl i Weithio yn y DU er mwyn gwneud cais am y rôl hon.

## Cymorth Mynediad

Credwn mewn sector sy'n gweithio i bawb ac rydym yn angerddol am ehangu mynediad i'r sector sgrin.

Byddwn yn cynnig cyfweliad awtomatig i bob ymgeisydd sy'n bodloni ein Meini Prawf gofynnol ar gyfer y rôl ac sy'n arddel hunaniaeth siaradwyr Cymraeg rhugl, Pobl y Mwyafrif Byd-eang, Pobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig neu bobl F/byddar, trwm eu clyw, Anabl neu niwroamrywiol.

Yn achos ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl, yn niwroamrywiol, a phobl sydd wedi colli eu golwg, mae cymorth ar gael i gyflwyno cais. Cysylltwch â ni i roi gwybod i ni sut y gallwn helpu. Er enghraifft, gallwn dalu costau dehonglydd BSL ar gyfer cyfarfod â ni cyn gwneud cais, cymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig, neu gytuno ar fformatau gwahanol ar gyfer gwneud cais fel ceisiadau fideo neu ddec sleidiau. Cawn ein harwain gennych chi.

Cysylltwch â Hayley Lau ar Hayley@ffilmcymruwales.com i drafod eich gofynion cyn gwneud cais.

**Ffilm Cymru Wales**
**Swydd-ddisgrifiad: Rheolwr Ariannol**

## Ar ôl i Chi Wneud Cais

Byddwch yn derbyn cadarnhad bod eich cais wedi'i dderbyn o fewn wythnos i'w gyflwyno a chewch ddolen i ffurflen monitro amrywiaeth, sy'n ein helpu yn ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant. Mae gan bob cwestiwn opsiwn 'gwell gen i beidio â dweud'. I gael gwybodaeth am sut mae Ffilm Cymru Wales yn prosesu data ymgeiswyr, gweler ein Polisi Preifatrwydd.

Cewch glywed a ydych wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad o fewn tair wythnos i ddyddiad cau gwneud cais.

**Ffilm Cymru Wales**
**Swydd-ddisgrifiad: Rheolwr Ariannol**

# Hysbyseb Swydd

**Teitl:** Rheolwr Ariannol
**Cyfnod:** Swydd amser llawn, barhaol.
**Cyflog:** £48,600 - £54,000 y flwyddyn, ynghyd â phensiwn.

Rydym yn defnyddio system gyflog 5 pwynt a byddwn fel arfer yn penodi ar bwynt 1 o'r radd ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** 16:00 ar 29 Awst 2023

**Dyddiad Cychwyn:** Tymor yr hydref 2023

Byddwn yn cynnig cyfweliad awtomatig i bob ymgeisydd sy'n bodloni ein Meini Prawf gofynnol ar gyfer y rôl ac sy'n arddel hunaniaeth siaradwyr Cymraeg rhugl, Pobl y Mwyafrif Byd-eang, Pobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig neu bobl F/byddar, trwm eu clyw, Anabl neu niwroamrywiol.

Yn achos ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl, yn niwroamrywiol, a phobl sydd wedi colli eu golwg, mae cymorth ar gael. Cysylltwch â hayley@ffilmcymruwales.com

We stand in solidarity to say NO to racism and commit to a #ZeroRacismWales
DO YOU?
Sign our policy today.
www.zeroracismwales.co.uk

**Ffilm Cymru Wales**
**Swydd-ddisgrifiad: Rheolwr Ariannol**

# Swydd-ddisgrifiad Llawn

**Swydd:** Rheolwr Ariannol
Mae hon yn rôl amser llawn, barhaol.

**Yn adrodd i:** Prif Swyddog Gweithredu.

**Yn Rheolwr Llinell i:** Swyddog Cyllid

**Lleoliad:** Caerdydd yw'r brif swyddfa a bydd gofyn teithio'n achlysurol yn y DU.

**Dyddiadau'r cyfweliadau:** Y dyddiad dan ystyriaeth yw 13 Medi 2023, wyneb yn wyneb, yn ein swyddfa yng Nghaerdydd.

**Cyflog:** £48,600-£54,000 y flwyddyn, ynghyd â phensiwn. Rydym yn defnyddio system gyflog 5 pwynt a byddwn fel arfer yn penodi ar bwynt 1 o'r radd ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

**Gwyliau blynyddol:** Rydym yn cynnig 28 diwrnod o wyliau blynyddol yn ychwanegol at Wyliau Cyhoeddus.

**Sut i Wneud Cais:** Oni bai ein bod wedi cytuno i chi ddefnyddio fformat gwahanol i gyflwyno cais, dylech anfon CV a llythyr eglurhaol drwy e-bost i hayley@ffilmcymruwales.com yn nodi pryd ydych ar gael a'ch profiad a'ch sgiliau yn erbyn y rhai sydd wedi'u hamlinellu yn y fanyleb hon.

**Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau: 16:00 Dydd Mawrth 29 Awst 2023**

**Ffilm Cymru Wales**
**Swydd-ddisgrifiad: Rheolwr Ariannol**

## Nodau'r Swydd

Mae Ffilm Cymru Wales bellach yn ei 17eg flwyddyn, ar ôl tyfu o dîm cychwynnol o chwech gyda throsiant o £700k i 30 o staff yn gweithio i gyllideb o £4.8m o amrywiaeth o ffynonellau ariannu a rhanddeiliaid llywodraethol allweddol dan oruchwyliaeth Bwrdd sydd â'i aelodau'n gweithio yn y diwydiant ehangach.

Mae'r Rheolwr Ariannol yn swydd sy'n cynnig sail i'r sefydliad yn ogystal â chroesawu'r cyfleoedd a'r heriau i wneud y defnydd gorau posibl o'r arian sydd ar gael inni.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cymryd cyfrifoldeb am y gwaith rheolaeth ariannol dyddiol sy'n ofynnol gan y sefydliad, gan gynnwys cyfrifon rheoli, paratoi a rheoli cyllideb, y gyflogres a'n harchwiliad allanol. Bydd disgwyl i chi weithio gyda chydweithwyr i helpu i gynhyrchu incwm; a llunio a rheoli cyllidebau ar gyfer prosiectau, tynnu cyllid i lawr, dyfarnu taliadau ac adrodd i bartneriaid prosiectau.

Dylech fod yn brofiadol ym mhob agwedd ar reolaeth ariannol, ond dylech hefyd feddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol i weithio gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid yn ôl yr angen.

Mae'r swydd yn adrodd i'r Prif Swyddog Gweithredu ac yn cael ei chynorthwyo gan Swyddog Cyllid.

**Ffilm Cymru Wales**
**Swydd-ddisgrifiad: Rheolwr Ariannol**

## Swydd-ddisgrifiad

- Paratoi a rheoli cyfrifon rheoli blynyddol a chwarterol gan gynnwys yr holl ofynion adrodd statudol a gofynion adrodd cyllidwyr.

- Cydweithio â'r uwch dîm rheoli i ddatblygu a mireinio cyllidebau ac adrodd i gyllidwyr ar lefel prosiect, gan ddefnyddio dull cadarnhaol o ddatrys problemau. Gallai adrodd, er enghraifft, gynnwys adroddiadau costau, taflenni amser ac ymarferion cysoni sy'n dangos gwariant yn erbyn cyllideb.

- Paratoi cyllidebau blynyddol ac aml-flwyddyn a chynlluniau senarios, yn ôl yr angen, i gynorthwyo'r uwch reolwyr a/neu'r Bwrdd i gynhyrchu incwm, datblygu busnes a gwneud penderfyniadau strategol.

- Adolygu a pharatoi argymhellion ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredu ar arbedion effeithlonrwydd posibl ac addasu polisïau, systemau a phrosesau ariannol, gan gynnwys, er enghraifft, defnyddio meddalwedd ac ychwanegion (gwahanol). A, lle y bo'r Prif Weithredwr neu'r Prif Swyddog Gweithredu yn cytuno, gweithredu neu ddechrau gweithredu argymhellion o'r fath.

- Parhau i adolygu a chynnal ein systemau ariannol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith a gofynion ariannol, ond hefyd ag unrhyw bartneriaid ariannu.

- Rheoli'r gyflogres – gan gynnwys pensiynau.

- Rheolaeth lawn o brosesau bancio a chardiau credyd, a chysoni.

**Ffilm Cymru Wales**
**Swydd-ddisgrifiad: Rheolwr Ariannol**

- Rheoli absenoldeb salwch (a mathau eraill o absenoldeb) a chyfathrebu â CThEM ynghylch hynny neu fel arall.

- Paratoi ceisiadau i dynnu arian i lawr.

- Arwain ar ein gofynion archwilio allanol.

- Prosesu taliadau lle bo angen, a goruchwylio Swyddog Cyllid (rhan amser).

- Cynorthwyo'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredu a'r Uwch Weithredwyr i reoli unrhyw newidiadau i geisiadau am gyllid (aml-flwyddyn).

- Adolygu a datblygu systemau ariannol sy'n cynnal trylwyredd ariannol ac yn cynorthwyo tîm y cwmni i wireddu amcanion strategol.

- Unrhyw dasgau rhesymol eraill a all fod yn ofynnol i gyflawni'r rôl.

**Meini Prawf Hanfodol**

- O leiaf 3 blynedd o brofiad gwaith fel cyfrifydd cymwys (ACCA, CIMA, CCC neu CPA).

- Profiad amlwg o weithredu rheolaethau, prosesau ac adroddiadau ariannol.

**Ffilm Cymru Wales**
**Swydd-ddisgrifiad: Rheolwr Ariannol**

- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol ac amlwg, yn gallu cyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan gynnwys ag unigolion nad oes ganddynt feddwl ariannol.

- Dull ymarferol o weithredu, trefnus iawn, ac yn gallu rhoi sylw rhagorol i fanylion.

- Sgiliau dadansoddol cryf a'r gallu i addasu, gan ddangos y gallu i roi cynnig ar amryw ddulliau i gyflawni amcan.

- Gallu amlwg i'ch ysgogi eich hun, cynllunio a threfnu gwaith a chyflawni o fewn terfynau amser.

## Meini Prawf Dymunol

- Profiad o weithio yng nghyd-destun y sector cyhoeddus.

- Profiad o weithio mewn amgylchedd busnes bach a chanolig.

- Profiad ym myd ffilmiau neu ddiwydiant creadigol cysylltiedig.

- Y gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Profiad o arferion cynhwysol.

- Profiad o lywodraethu corfforaethol.